Gwirfoddoli dros Sir Benfro
Volunteering for Pembrokeshire

Canllaw Hunanwasanaeth i

Basbortau Gwirfoddolwyr

Beth yn union ydyn nhw?

Pa fath sydd orau i fy mudiad?

Sut gallwn ni ddatblygu ein dull ein hunain?

Funded by
UK Government
Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

Trosolwg

Ynglŷn â'r Canllaw hwn

Mae'r adnodd hwn wedi'i gynllunio i gynorthwyo Mudiadau sy'n Cynnwys Gwirfoddolwyr sydd am archwilio potensial pasbortau gwirfoddolwyr, gan eu helpu i gydweithio â mudiadau o'r un anian i dyfu ar y cyd, gwella ansawdd eu rhaglenni, neu wella'r profiad i wirfoddolwyr.

I'r rhai sy'n newydd i basbortau mae'n gyflwyniad cyffredinol ac, i'r rhai sy'n dymuno mynd ymhellach, mae'n ganllaw maes i rai o'r modelau mwyaf cyffredin o basbortau a'u defnyddiau arferol. Byddwch yn ymwybodol nad yw'n gwneud argymhellion, ac nid yw ychwaith yn llawlyfr cynhwysfawr i greu eich pasbort gwirfoddolwyr eich hun. Mae'n fwy o adnodd dysgu 'hunanwasanaeth', sy'n eich helpu i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch a yw pasbortau gwirfoddolwyr yn cynnig potensial i chi a'ch rhaglen wirfoddoli.

Mythau a chamsyniadau poblogaidd

Cyn plymio i mewn i'r canllaw ystyriwch y canlynol, a allai helpu i fframio eich dull gweithredu:

- Er gwaethaf y niferus farnau a fynegwyd am basbortau gwirfoddolwyr, **nid oes un model na diffiniad penodol.** Mae mudiadau'n eu datblygu am lawer o wahanol resymau, a dyna efallai pam eu bod yn cwmpasu ystod o amcanion gwahanol, neu fod ganddynt enw drwg am fod yn gymhleth neu'n anodd eu rhoi ar waith;
- Mae rhai yn mynd ar eu trywydd gyda nod sefydliadol mewn golwg - cael mynediad at gronfa'n fwy o wirfoddolwyr efallai, neu symleddio systemau a phrosesau. Mae eraill yn eu gweld fel ffyrdd o wella profiad gwirfoddolwyr. Mae gan lawer ohonynt amcanion lluosog, cydamserol, **a all wneud i basbortau ymddangos yn ddeniadol, ond gallant hefyd wanhau eu ffocws neu ddrysu'r cynllun.**
- Mae llawer yn dechrau gyda'r posibiliadau technegol - yn enwedig y rhai a gynigir gan systemau digidol. Fodd bynnag, mae pasbortau yn dueddol o **godi cymaint o heriau diwylliannol a chwestiynau technegol** - o ran sut i gytuno ar safonau cyffredin efallai (ar gyfer hyfforddiant ac archwilio cefndir, er enghraifft) neu wrth argyhoeddi eich gwirfoddolwyr i'w defnyddio. Mae caniatáu digon o amser i baratoi briff clir, neu feithrin consensws, yn aml yn hanfodol ar gyfer llwyddiant.

I grynhoi, er bod gennych eisoes reddfau cryf o ran yr hyn yr ydych ei eisiau gan basbort, ceisiwch gadw meddwl agored. Mae'r canllaw hwn wedi'i gynllunio i'ch helpu

i benderfynu ar eich prif anghenion - eich prif ‘achos defnydd' ar gyfer pasbort gwirfoddolwyr.

Rydym yn gweithio mewn cyfnod heriol iawn i recriwtio a chadw gwirfoddolwyr ac, er efallai nad pasbortau yn unig yw'r ateb cyfan, gallant eich helpu i **dyfu** eich rhaglenni, eu gwneud yn fwy **effeithlon,** neu gael effaith gadarnhaol ar **brofiad** gwirfoddolwyr presennol a darpar wirfoddolwyr.

Cychwyn arni

Beth yw Pasbortau Gwirfoddolwyr?

Mewn sawl ffordd mae Pasbortau Gwirfoddolwyr yn gwneud llawer o'r un pethau â phasbortau teithio - gan helpu pobl i symud o gwmpas a phrofi eu hunaniaeth neu pwy ydyn nhw, o fewn systemau neu sefydliadau swyddogol. Ym maes gwirfoddoli, maent yn canolbwyntio ar ddatrys sialensiau (neu wireddu cyfleoedd) yn ymwneud â **hygludedd gwirfoddolwyr** (y gallu i symud yn gyflym ac yn hawdd rhwng gweithgareddau, neu'r mudiadau sy'n eu cynnal) a/neu **ddilysiant gwirfoddolwyr** (gan ddangos yr hyn y mae'r gwirfoddolwr wedi'i gyflawni, i'r rheini y tu mewn neu'r tu allan i'ch ‘ecosystem’ gwirfoddoli).

Hygludedd: mae'n ymwneud â systemau

Mae pasbortau sy'n canolbwyntio ar hygludedd yn ceisio cydgysylltu (neu leihau'r gwrthdaro rhwng) y gwahanol gamau o siwrnai'r gwirfoddolwr - mynegi diddordeb, recriwtio, cynefino, cydnabyddiaeth ac eraill. Mae modelau hygludedd yn ddefnyddiol i Reolwyr Gwirfoddolwyr sydd â diddordeb mewn gwneud enillion effeithlonrwydd drostynt eu hunain (gan leihau dyblygu camau neu ymdrech fel arfer) neu roi profiad gwell i wirfoddolwyr (siwrnai esmwythach, haws). Mae hygludedd yn canolbwyntio ar systemau, mecanweithiau a phrosesau gwirfoddoli – mae rhai'n galw hyn yn ‘basbortio’.

Dilysiant: mae'n ymwneud â'r pasbort

Mewn cyferbyniad, mae mathau eraill o basbort yn cael eu hadeiladu o amgylch y cynnyrch ei hun – cofnod ffisegol neu ddigidol y gwirfoddolwr o hunaniaeth a chymwysterau, offeryn proffil y gellir ei rannu sy'n dilysu pwy ydyn nhw a'r hyn y mae wedi'i gyflawni. Gall mudiad cynnal ddefnyddio hwn i adolygu datganiadau o ddiddordeb gan unigolion sydd am wirfoddoli gyda nhw.

Mae pasbortau sy'n canolbwyntio ar ddilysiant yn aml yn eiddo i, neu'n cael eu gweinyddu gan y gwirfoddolwr ei hun, hyd yn oed os ydynt yn cael eu cynnal yn rhywle canolog neu niwtral (fel Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol, neu Ganolfan Gwirfoddoli, yn gweithio ar ran gwahanol bartneriaid ar draws ardal). Yma, mae gwirfoddolwyr yn gyffredinol yn rheoli eu data eu hunain, ac yn cael yr offer i roi mynediad at y pasbort i'r gwahanol fudiadau y maent am wirfoddoli gyda nhw, neu eraill sydd eisoes yn eu hadnabod, fel y gellir gwirio neu ddilysu'r wybodaeth ar eu proffil yn ffurfiol.

Ystyried eich opsiynau

Pa fath o basbort sydd orau ar gyfer eich rhaglen wirfoddoli?

Yn ymarferol, mae llawer o fodelau yn gwasanaethu amcanion hygludedd a dilysiant, ond efallai mai man cychwyn defnyddiol fyddai ystyried a oes yn well gennych chi un neu'r llall, neu a ydych chi'n ceisio cydbwyso'r ddau.

Mae'r diagram isod yn dangos y sbectrwm ‘hygludedd/dilysiant' hwn ar yr echelin ‘y’ neu fertigol. Fel arall, gallech ystyried a yw eich prif achos defnydd yn ymwneud yn fwy â gwella eich systemau eich hun, neu wella profiad y gwirfoddolwr - mae'r sbectrwm hwn yn cael ei gynrychioli ar yr echelin ‘x’ neu lorweddol. Gwrandewch ar sylwadau eich cydweithwyr, neu adolygwch atborth gan eich gwirfoddolwyr, i'ch helpu i ateb y cwestiynau hyn.



Mae'r pedwar math o basbort a gwmpesir yma (bocsys melyn) yn bedwar model posib yn unig, wedi'u hadeiladu o amgylch rhai nodau generig a welir yn gyffredin ym myd gwirfoddoli. Maent wedi'u cynnwys er mwyn rhoi enghreifftiau'n unig - efallai y byddant yn addas ar gyfer eich uchelgeisiau neu anghenion i ryw raddau, neu'n syml yn eich tywys i'r cyfeiriad cyffredinol yr hoffech fynd iddo.

Ystyriwch eich dewisiadau gan ddefnyddio'r sbectrymau hyn, i weld a oes gennych unrhyw ddewisiadau cadarn yn barod. P'un ai bod gennych ddewisiadau cadarn ai peidio ar hyn o bryd, ar y dudalen nesaf gallwch archwilio'r pedwar model hyn yn fanylach. Ar dudalennau 7-10 awn ymhellach, gan ddisgrifio sut mae pasbortau (o bob math) yn cael eu rhoi at ei gilydd - y gwahanol gydrannau.

Cipolwg: Mathau Cyffredin o Basbort

	Mathau o Basbort Gwirfoddolwyr			
	Ymateb Brys	**Amrywiaeth a Chynhwysiant**	**Darparu Gwasanaethau a Datblygu'r Gweithlu**	**Gyrfa a Datblygiad Personol**
Beth maen nhw'n ei wneud / Ar gyfer beth	Broceriaeth gyflym mewn sefyllfaoedd 'ymchwydd' (sensitif i amser), i safonau y cytunwyd arnynt	Meithrin diwylliant gwirfoddoli mwy cynhwysol a chroesawgar	Cefnogi cydweithio trwy gronfa a rennir, gan lyfnhau'r galw a'r cyflenwad	Casglu a gwirio'r profiad a'r buddion a gafwyd
Ble rydych chi'n eu gweld	Yn ystod argyfyngau iechyd dinesig neu gyhoeddus (e.e. Covid-19, neu gyfnodau o dywydd eithafol efallai)	Mewn ardaloedd lleol sy'n blaenoriaethu gwirfoddoli, ceisio ehangu mynediad i'r rhai sy'n cael eu heithrio'n aml	Unrhyw le mae gwirfoddolwyr yn cael eu cydnabod yn y gweithlu, neu fel llwybr credadwy i waith cyflogedig	Mentrau sy'n canolbwyntio ar ieuenctid neu integreiddio cymunedol (e.e. gyda ffoaduriaid neu fudwyr)
Elfennau adeiladu craidd	Sicrwydd Ansawdd Cryf wedi'i adeiladu ar safonau a rennir (fel archwilio cefndir, hyfforddiant, llywodraethu neu ddata)	Cynefino cyflym, safonau ysgafnach, llwybrau â chymorth - amlygu buddion personol	Systemau hyfforddi ac archwilio cefndir cyffredin, cyfeirio, ac elfennau cydnabyddiaeth	Ffocws cryf ar swyddogaethau dilysu'r pasbort (yr elfen proffil)

Llywodraethu a gweinyddu	Tebygol o gael ei arwain gan bartner lleol, niwtral (fel Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol neu Ganolfan Gwirfoddoli) a / neu ei ariannu gan bartner statudol (Awdurdod Lleol yn aml).		Llai o angen am weinyddwr canolog os oes cytundebau ymddiriedaeth / partner ar waith i reoli rhwymedigaethau a rennir	Y partner sydd agosaf at y gynlluneidfa wirfoddol fel arfer.
Ffocws offer digidol	Swyddogaethau rheoli a broceriaeth – dan arweiniad gwirfoddolwyr yn aml, tasgau hunan-ddewis sy'n sensitif i amser	Broceriaeth gyda dewis a hyblygrwydd, gan gynnwys opsiynau 'tra byddwch yn aros' (e.e. hyfforddiant neu ddysgu)	Hwyluso mynediad i wirfoddolwyr (ar gyfer partneriaid) offer i wirio hyfforddiant a phrofiad, dangos y ffordd, os yw 'dewis cyntaf' gwirfoddolwyr yn llawn	Y proffil fel cofnod gwirfoddoli gwiriadwy y gellir ei rannu

Gwirio eich rhagdybiaethau: ymgysylltu â chydweithwyr

Os oes gennych fodel mewn golwg ar gyfer eich pasbort erbyn hyn, efallai y byddai'n amser da i ymgynghori â'ch tîm neu bartneriaid ehangach, i gael eu mewnwelediad a chreu consensws. Dyma rai pwyntiau trafod a awgrymir:

- **A oes gan ddarpar ddefnyddwyr eich Pasbort gwlwm agosrwydd cyffredin?** Mae ymchwil yn awgrymu bod rhywfaint o gyffredinedd ymhlith eich gwirfoddolwyr yn galluogi cynllun gwell, gan wella'r siawns y bydd yn cael derbyniad a defnydd da. Gallai cyffredinedd fod yn ardal ddaearyddol a rennir (gan wella lle maent yn byw, focws a rennir), demograffeg a rennir (fel pasbortau sy'n targedu gwirfoddolwyr iau), neu hunaniaeth / diddordeb a rennir (ffactor diwylliannol, cyflwr iechyd, budd amgylcheddol, ac ati).

- **A oes gennych chi'r partneriaid cywir?** Er ei bod yn bosib datblygu Pasbort ar eich pen eich hun, o fewn eich rhaglen eich hun, mae'n debygol y byddwch eisiau gweithio gydag eraill. Gallai'r rhain fod yn bartneriaid yn eich ardal ddaearyddol, neu eraill sy'n rhannu eich diddordeb mewn datblygu gwirfoddoli. Beth sydd angen i chi ei wneud i'w denu, neu feithrin consensws o amgylch eich syniad? Mae deall anghenion, uchelgeisiau a ffiniau partneriaid yn gynnar yr un mor bwysig i gynllunio da â chael syniad clir o ddewisiadau gwirfoddolwyr.

- **A oes arnoch angen brocer neu weinyddwr niwtral?** Mae'r rhain yn fwy cyffredin mewn modelau pasbort seiliedig ar ardal, neu lle mae arweinydd seilwaith naturiol. Maent yn ddefnyddiol hefyd os ydych chi wedi cymryd yr amser i ddatblygu safonau a rennir - gall partner niwtral (rhywun nad yw'n ymgysylltu â'r gwirfoddolwyr eu hunain) ganolbwyntio ar gysondeb neu gais, ar froceriaeth a chefnogi gwirfoddolwyr yn y camau cynnar.

- **A oes gan eich pasbort hygrededd ymhlith y darpar ddefnyddwyr?** O ystyried bod ymddiriedaeth yn aml yn ffactor allweddol (wrth i bartneriaid gytuno ar safonau a rennir, i wirio gwirfoddolwyr neu rannu data personol), mae'n bwysig bod gwirfoddolwyr a'r rhai sy'n gweinyddu'r system yn credu'n llawn ynddo. Weithiau mae hyn yn ymestyn i hyder yn y partneriaid sy'n cefnogi neu'n ariannu'r fenter - ystyriwch a ddylai hyn ddylanwadu ar frand a chyfathrebiadau eich pasbort.

Camau nesaf

Erbyn hyn, gobeithio y bydd gennych reddf dda o ran a yw pasbortau gwirfoddolwyr yn cynnig unrhyw fudd neu botensial o fewn eich rhaglen eich hun - yn ogystal â rhai greddfau cynnar o ran sut a ble y gallech eu defnyddio. Mae gweddill y canllaw hwn wedi'i neilltuo i'ch helpu i fireinio'ch anghenion, cynllunio'ch dull gweithredu, a chymryd y camau nesaf.

Creu Pasbort Gwirfoddolwyr

Beth sy'n rhan o Basbort, neu system ‘basbortio'?

Mae ymchwil yn awgrymu bod saith elfen gyffredin i bob pasbort gwirfoddolwyr, er nad yw pob un yn hanfodol ar gyfer pob math. Mae'n berffaith bosib (ac yn aml yn synhwyrol) dechrau gyda'ch anghenion craidd yn unig, eich 'cynnyrch hyfyw lleiaf'. Os gallwch chi adeiladu system syml sy'n gweithio'n dda i chi, eich gwirfoddolwyr a'ch partneriaid, fel arfer gallwch ychwanegu mwy o elfennau dros amser.

Y dull ‘jig-so’

Mae pasbortau fel arfer yn cael eu creu a'u darparu trwy **gyfres o gytundebau cydgysylltiedig, systemau a seilwaith a rennir**, gan gynnwys rhai (neu bob un) o'r saith elfen isod[1] mewn gwahanol gyfuniadau, ychydig fel jig-so.

[1] Nodweddion Pasbortau Gwirfoddolwyr, o ‘Research into Volunteer Passports’ (DCMS, 2021)

1. **‘Ffederasiynau ymddiriedaeth -** cytundebau partneriaeth cydweithredol sy'n ymdrin â sut rydych chi a'ch partneriaid yn bwriadu gweithio gyda'ch gilydd

2. **Safonau a rennir -** cytundebau sy'n ymwneud â'ch systemau sicrwydd ansawdd - sut y byddwch ar y cyd yn archwilio cefndir neu'n hyfforddi gwirfoddolwyr, yn rheoli trefniadau llywodaethu neu'n diogelu data a rennir

3. **Cronfa ar y cyd o wirfoddolwyr –** grŵp penodol neu fath o unigolion yr hoffech ymgysylltu â nhw (boed yn gwirfoddoli ar y pryd ai peidio)

4. **Atebion broceriaeth a rennir -** offer neu systemau i gyfeirio gwirfoddolwyr at y cyfleoedd mwyaf priodol, eu paru nhw gyda thasgau neu rolau, neu eu helpu i ddewis eu hunain, yn seiliedig ar eu dewisiadau

5. **Proffil neu ‘bortffolio’ -** 'pasbort' y gwirfoddolwr neu gofnod o'i gyfraniadau a'i gyflawniadau, yn ddigidol yn aml gydag offer mynediad i alluogi mwy o bartneriaid i weld y cynnwys

6. **Llwybrau i ddilysu'r hyn mae gwirfoddolwyr wedi'i ddysgu** - offer i wirio hyfforddiant a rhoi ardystiadau swyddogol, i'w cofnodi yn y pasbort

7. **Cynlluniau gwobrwyo –** systemau ychwanegol yn darparu cymhellion a manteision, yn gysylltiedig â gwirfoddoli.

Adeiladu eich jig-so

Yn y diagram isod, rydym yn dechrau gweld sut y gellir cydosod y gwahanol elfennau hyn i greu system Pasbort Gwirfoddolwyr cynhwysfawr. Sylwch sut mae rhai elfennau'n gwasanaethu'r swyddogaeth hygludedd, tra bod eraill wedi'u hanelu'n fwy at amcanion dilysiant.

Myfyriwch ar y model hwn, ochr yn ochr â'r modelau cyffredin a ddisgrifir ar



dudalennau 4 a 5, i'ch helpu i ganfod eich elfennau mwyaf hanfodol – yr agweddau hynny ar system basbort y gallai fod angen i chi eu datblygu, adeiladu arnynt neu gytuno ar eu siap, gydag eraill.

Enghreifftiau pellach

Beth am ein ‘mathau cyffredin' o basbort, fel y disgrifir ar dudalennau 4 a 5? Pa elfennau sy'n gwasanaethau'r mathau hynny o achosion defnydd cyffredin orau?

Ymateb Brys



Yn yr enghraifft hon (a ddefnyddiwyd yn ystod COVID-19, i gyflymu'r broses gynefino a lleoli gwirfoddolwyr, drwy osgoi dyblygu hyfforddiant a gwiriadau archwilio cefndir), mae'r ‘Ffederasiwn Ymddiriedaeth' rhwng partneriaid yn rhoi trefniadau ar waith ar gyfer rheoli hyfforddiant ac archwilio cefndir yn ganolog, sydd yn ei dro yn gwneud rolau'n gludadwy ar draws mudiadau sy'n cyfranogi. Mae proffil gwirfoddolwr gweladwy yn cwblhau'r system. Mewn rhai amrywiadau nid yw archwilio cefndir wedi'i ganoli - yn syml, mae partneriaid yn derbyn gwiriadau ei gilydd ar ymddiriedaeth. Nid yw'r mathau hyn o basbortau wedi'u hanelu at unrhyw un math o wirfoddolwr, ond mae hunaniaeth gwirfoddolwr o fod mewn 'cronfa' yn ganolog i bob math.

Amrywiaeth a Chynhwysiant

Yma mae'r ffocws ar annog cynulleidfaoedd newydd i wirfoddoli – yn enwedig y rhai a allai fod wedi'u heithrio'n draddodiadol. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r model yn cynnwys cyn lleied o rwystrau rhag mynediad â phosib, a dyna pam nad oes unrhyw safonau y cytunwyd arnynt, a chynhwysiad elfennau sydd wedi'u cynllunio i rymuso'r unigolyn i gymryd cyfrifoldeb drwy wirfoddoli (elfennau dilysiant a phroffil), ac i gefnogi eu profiad (trwy wobrwyo a chydnabyddiaeth).



Darparu Gwasanaethau a Datblygu'r Gweithle, Gyrfa a Datblygiad Personol

Mae'r ddau fodel olaf yn eithaf tebyg o ran y gwahanol elfennau maent yn eu defnyddio - y gwahaniaeth mawr yw bod y rhai sy'n gallogi gwirfoddoli i gael mynediad i weithle (model #3) yn canolbwyntio ar safonau a rennir y diwylliant dan sylw, tra bod gan y rhai sy'n gwirfoddoli fel cymorth i ddatblygiad personol neu yrfa (model #4) lai o safonau rhagnodedig, gan ganolbwyntio'n hytrach ar y portffolio gwirfoddolwyr a'i allu i arddangos cyflawniadau'r gwirfoddolwyr.



Fel Model #1, Model #3 (yn seiliedig ar hyfforddiant) mae'n hwyluso mwy o hygludedd ar draws partneriaid trwy ei safon hyfforddi gyffredin, gan greu effeithlonrwydd i bartneriaid a gwell profiad i wirfoddolwyr trwy'r gydnabyddiaeth a'r gwobrau a geir trwy ddysgu ffurfiol.

Mae'r modelau hyn i'w cael yn aml lle mae sector neu ddiwydiant cyffredin (e.e. gofal iechyd), neu mewn ardal leol ag ôl troed daearyddol clir (fel awdurdod lleol), ac yn dueddol o apelio at y rheini sydd eisiau gwirfoddoli i fwy nag un mudiad.

Mewn cyferbyniad, mae Model #4 yn osgoi rhwystrau ychwanegol at fynediad (fel safonau penodol) ac mae wedi'i adeiladu o amgylch gallu'r gwirfoddolwr i greu proffil (neu bortffolio) y mae'n ei ddefnyddio fel tystiolaeth a dilysiad o'i gyfraniad dysgu a gwirfoddol. Er y gall y sgiliau a enillir amrywio, erys rhywfaint o botensial ar gyfer hygludedd, o fewn gwirfoddoli a'r farchnad lafur. Mae'r modelau hyn yn amlygu manteision gwirfoddoli i'r gwirfoddolwr, ac fe'u defnyddir yn aml gyda phobl ifanc, y rhai sy'n chwilio am waith, neu grwpiau ymylol a allai fod angen mwy o gymorth i wirfoddoli, neu gael mynediad at gyflogaeth.

Beth am yr elfen ddigidol?

Pa bynnag fodel y byddwch yn penderfynu ei archwilio, mae'n debygol y bydd angen rhai elfennau o seilwaith digidol arnoch, ond ystyriwch hyn unwaith y bydd gennych syniad da o'ch dull sylfaenol:
Gall cynllunio'ch pasbort o amgylch posibiliadau digidol arwain at ddewis opsiynau nad oes eu hangen arnoch mewn gwirionedd, neu eich argyhoeddi i fabwysiadu technolegau dim ond oherwydd eu bod yn newydd neu'n boblogaidd gydag eraill. Dyma restr o elfennau cyffredin a geir ym 'mhentwr' digidol nodweddiadol pasbort:

1. Meddalwedd dilysu hunaniaeth

Mae'r rhaglenni hyn yn galluogi'r gwirfoddolwr i 'wirio' ei hunaniaeth yn ffurfiol, fel arfer drwy uwchlwytho dogfennau swyddogol fel pasbort neu drwydded yrru. Gall hyn gyflymu ceisiadau a chynefino, gan arbed amser ac ymdrech i'r Rheolwr Gwirfoddolwyr.

2. Integreiddio gwiriad DBS

Mae llawer yn gobeithio y bydd rhywfaint o integreiddio â'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cyflymu'r hyn a all fod yn gam llafurus yn siwrnai gwirfoddolwr. Gall opsiynau amrywio o'r gallu i gynnwys tystysgrif DBS bresennol ym mhroffil y gwirfoddolwr, i rywbeth mwy integredig â'r cam gwirio ei hun. Cynghorir sgyrsiau gyda darparwyr digidol yma, oherwydd efallai y bydd angen cod pwrpasol i gysylltu gwahanol systemau â'i gilydd.

3. Porth ymgeisio

Dyma'r ‘drws ffrynt' digidol y mae gwirfoddolwyr yn mynegi diddordeb neu'n gwneud cais llawn drwyddo. Mae'n bosib bod gennych chi un o'r rhain eisoes o fewn eich gwefan eich hun, yn defnyddio llwyfan cenedlaethol agored, neu un sy'n benodol i'ch ardal neu sector. Gofynnwch i bwy bynnag sy'n gweinyddu hyn am fanylion ynghylch pa mor hawdd y gall y llwyfan integreiddio â systemau eraill.

4. Integreiddio gyda'ch meddalwedd rheoli eich hun

Sut mae eich pasbort yn cysylltu â'ch system 'ochr gefn' ar gyfer rheoli gwirfoddolwyr? Mae penderfynu pa ‘VMS’ (system rheoli gwirfoddolwyr) i'w mabwysiadu neu brynu yn aml yn un o'r cwestiynau digidol cyntaf mae Rheolwyr Gwirfoddolwyr yn eu hwynebu, wrth symud i ffwrdd oddi wrth gofnodion papur neu daenlenni Excel. Unwaith eto, dylai sgwrs gyda phwy bynnag sy'n darparu eich meddalwedd presennol neu ddewisol ddatgelu eich prif opsiynau.

5. Integreiddiadau ehangach

Yn olaf, efallai y bydd systemau neu lwyfannau allanol eraill yr hoffech chi gysylltu eich pasbort â nhw, gan roi gwerth ychwanegol i wirfoddolwyr. Mae safleoedd hyfforddi ar-lein a chynlluniau gwobrwyo a chydnabod yn ddewisiadau cyffredin yma, ond gallai fod yn werth ystyried unrhyw beth sy'n cefnogi eich llwybr gwirfoddoli cyfan.

Cael cymorth gyda'r elfen ddigidol

Os ydych chi'n newydd i ystyried opsiynau digidol, meddalwedd neu integreiddiadau ym maes gwirfoddoli, nid ydych chi ar eich pen eich hun. I lawer o reolwyr gwirfoddolwyr, gall hyd yn oed sgwrs gyda datblygwr meddalwedd neu arbenigwr digidol deimlo'n eithaf brawychus.

Yn ddefnyddiol, gellir gwneud llawer o waith cynllunio eich pasbort cyn bod angen ystyried anghenion digidol, sy'n golygu y dylai fod gennych friff da i'w roi iddynt erbyn yr adeg y byddwch yn barod i siarad â darparwr neu arbenigwr. Bryd hynny, bydd y rhan fwyaf o arbenigwyr neu ddarparwyr meddalwedd ag enw da yn gallu eich arwain trwy'ch opsiynau.

Yn y cyfamser, mae'r diagram hwn yn dangos sut mae rhai o elfennau pentwr digidol cyffredin (a ddisgrifir ar y dudalen olaf) yn integreiddio i wahanol gamau o siwrnai'r gwirfoddolwr.

Os hoffech weithio ar eich llythrennedd digidol eich hun, rhowch gynnig ar y Pecyn Cymorth Digidol mewn Gwirfoddoli hwn, a baratowyd gyda chydweithrediad Cymdeithas y Rheolwyr Gwirfoddolwyr. Mae wedi'i gynllunio'n arbennig ar gyfer y rhai sy'n newydd i'r cwestiynau hyn, gan helpu i gynyddu eich gwybodaeth, eich hyder a'ch cymhelliant i ddefnyddio offer digidol ar eich rhaglen wirfoddoli.



Datblygu eich Glasbrint

Erbyn hyn, dylai fod gennych ymwybyddiaeth dda o rai o'r prif gwestiynau i'w hystyried wrth gynllunio'r model o basbort sydd orau gennych, megis:

- A oes gennych chi fwy o ddiddordeb mewn hygludedd neu ddilysiant? Mewn arbedion effeithlonrwydd i'ch mudiad, neu brofiad gwell i wirfoddolwyr?
- Pa rai o'r 'darnau jig-so' cyffredin y gallai fod eu hangen arnoch i adeiladu eich fframwaith delfrydol? A pha elfennau digidol fyddai'n cefnogi hyn orau?
- Faint ydych chi'n ei ddeall am eich grŵp gwirfoddol - a oes ganddynt gyffredinrwydd yn eu clymu at ei gilydd, i'ch galluogi chi i lunio siwrnai gwirfoddoli ymarferol ar gyfer eich pasbort?

Ar dudalen 6, fe wnaethom eich annog i wirio eich rhagdybiaethau cynnar gyda chydweithwyr. P'un ai y gwnaethoch chi hyn ai peidio, efallai y byddai nawr yn amser da i alw cyfarfod i lywio'ch cynllun dewisol a'r camau nesaf. O ystyried bod angen llawer o ymddiredaeth a chydweithio ar basbortau ar y cyfan, mae'n hollbwysig cynnwys digon o amser i ymgysylltu â rhanddeiliaid a mynd â phobl gyda chi ar y siwrnai.

Gellid defnyddio'r tabl isod fel agenda ar gyfer cyfarfod o'r fath, neu fel sail i gofrestr risgiau ar gyfer eich prosiect hyd yn oed - gan roi gwybod i chi am heriau cyffredin neu gwestiynau dyrys y gallai gael eu gofyn i chi.

Maes Risg	Cwestiynau i'w hystyried
RIsgiau cynllunio	• A oes digon o **gyffredinrwydd** o fewn eich grŵp gwirfoddolwyr? • **Hyblygrwydd** – a oes arnoch angen safonau pendant i bawb eu dilyn, neu a allwch chi ymdopi ag addasiadau lleol? • **Hygrededd** – a fydd gwirfoddolwyr yn ymateb yn dda? A fydd partneriaid ehangach yn cefnogi hyn? A oes gan eich cefnogwyr hyder cynulleidfaoedd allweddol? • **Hygyrchedd** – a yw'n hawdd ei ddefnyddio (i wirfoddolwyr a gweinyddwyr)
Risgiau adnoddau	• **Cynaladwyedd** – ydych chi wedi costio'r elfennau y byddai eu hangen arnoch i'w gynnal - creu, cynnal a chadw a gweinyddu'n barhaus?

Risgiau technolegol	• **Gwybodaeth** – a oes gennych yr arbenigedd o fewn eich partneriaeth i gefnogi eich sgyrsiau digidol yn hyderus? • **Integreiddio** – a ydych chi wedi mapio'r rhwydwaith o systemau neu lwyfannau ehangach y gallai fod angen i chi gysylltu â nhw?
Risgiau llywodraethu ac ansawdd	• **Atebolrwydd** - pan fyddwch yn 'rhannu' gwirfoddolwyr (neu eu data) mae eglurder ar rwymedigaethau yn bwysig i sicrhau cefnogaeth partner, yn ogystal â rheoli risg unwaith y bydd eich pasbort yn weithredol • **Dilysiant** – a oes gennych gytundeb ar y prosesau Sicrwydd Ansawdd a fydd yn rhoi digon o hyder i bob partner dderbyn dyfarniadau archwilio cefndir, hyfforddiant a dilysiant ei gilydd?

GWYBODAETH BELLACH

Cysylltiadau ac astudiaethau achos ar Basbortau Gwirfoddolwyr

O Gymru

- Yn y blogbost hwn, mae CGGC yn archwilio'r potensial ar gyfer Pasbortau Gwirfoddolwyr yng Nghymru.#
- Yma mae Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam (AVOW) yn disgrifio eu bwriad i greu banc o wirfoddolwyr yn dilyn eu profiadau lleol yn ystod COVID-19. Roedd yr adroddiad cenedlaethol hwn ar brofiadau gwirfoddoli yn ystod y pandemig yn nodi'r galw am basbort yn Wrecsam, ac mae'r adroddiad newyddion hwn o 2021 yn mynd ar drywydd y stori, gan ddisgrifio lansiad eu Pasbort Gwirfoddolwyr gan Dîm Ymateb Cymunedol Wrecsam.
- Mae'r adroddiad cwmpasu hwn dan arweiniad meddygon ymgynghorol (2021) yn archwilio'r potensial ar gyfer cynllun pasbort gwirfoddolwyr yng Ngorllewin Morgannwg, yn dilyn COVID-19. Crynhowyd yr ymdrechion hyn yn fwy cryno gan CGG Castell-nedd Port Talbot ac mewn blog gan CGGC yn disgrifio'r prif brosesau a oedd yn cael eu hystyried.
- Mae'r adnodd arluniadol hwn gan CGGC yn archwilio rhai o'r gwersi a'r mewnwelediadau cydweithredol i wirfoddoli yng Nghymru yn ystod COVID-19, a all fod yn adnodd sylfaenol defnyddiol i'r rhai sydd ar ddechrau eu siwrnai basbortio. Mae'n cynnwys nodiadau cryno gan glwstwr o fudiadau amgylcheddol, i gyd yn Eryri, a ddatblygodd ddull ar y cyd o recriwtio gwirfoddolwyr gan ddefnyddio llwyfan cyffredin ar y we. Mae mewnwelediadau gan Gwirfoddoli Cymru ac Age Cymru wedi'u cynnwys hefyd.

- Mae gwefan Gwirfoddoli Cymru eisoes yn cefnogi rhai elfennau o allu pasbortio, gan alluogi gwirfoddolwyr i gofnodi a rhannu manylion personol gyda mudiad cynnal posib trwy gôd QR.
- Er nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â gwirfoddoli, mae'r cynllun Pasbort Cronfeydd Dŵr hwn, a weinyddir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Dŵr Cymru Welsh Water, yn darparu mynediad symlach i grwpiau gweithgareddau awyr agored i nifer o gronfeydd dŵr.

O ymhellach i ffwrdd

- Y sylfaen dystiolaeth fwyaf cynhwysfawr ar basbortau yn y DU yw Research into Volunteer Passports (2021) gan Lywodraeth y DU. Mae llawer o'r wybodaeth yn y canllaw hwn yn deillio o'r canfyddiadau hyn.
- Mae'r Norfolk Volunteer Passport yn rhaglen hyfforddi sy'n helpu gwirfoddolwyr i ennyn yr wybodaeth a'r sgiliau sylfaenol i'w helpu i ddod o hyd i rolau newydd yn gyflymach ac i symud yn haws rhwng rolau.
- Mae'r Northamptonshire's Volunteer Passport wedi'i gynllunio i annog gwirfoddoli a gwneud mynediad yn haws yn eu hardal leol.
- Er nad yw'n Basbort llawn, mae Health Education England wedi paratoi volunteer learning programme safonol, sy'n gysylltiedig â thystysgrif gwirfoddoli'r GIG. Mae'r set of FAQs yn dangos sut mae'r rhaglen wedi cael ei mabwysiadu gan bartneriaid yn Swydd Gaerhirfryn.
- Mae gan yr elusen sy'n canolbwyntio ar iechyd Helpforce amrywiaeth o adnoddau sydd wedi'u cynllunio i gefnogi ymgysylltu â pasbortau gwirfoddolwyr, gan gynnwys how to guide to volunteer portability, examples of training offered o fewn pasbortau, webinar on portability and passporting ac exploration of the nature of volunteer portability as a challenge ar gyfer systemau iechyd.
- Pasbort sy'n canolbwyntio ar hyfforddi a dysgu sy'n cefnogi gwirfoddolwyr ar draws yr Open Mental Health Network (yn Ne-orllewin Lloegr).
- Mae This passport yn darparu hyfforddiant a chydnabyddiaeth i wirfoddolwyr gyda mudiadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr ar draws dinas Plymouth.
- Nid yw'r national carer's passport hwn yn ymwneud yn bennaf ag uchelgeisiau gwirfoddoli, ond mae'n addysgiadol os ydych yn dymuno i'ch pasbort ddarparu hunaniaeth ffurfiol, cydnabyddiaeth neu gymorth ehangach i'ch grŵp gwirfoddolwyr.

Cymorth ychwanegol

- Gall y Ganolfan Wirfoddoli, sydd wedi'i lleoli yn PAVS eich cynorthwyo gydag ystod eang o bolisïau, dogfennau a gwasanaethau enghreifftiol, i'ch helpu i hysbysebu, recriwtio, rheoli a dathlu gwirfoddolwyr. Os ydych y tu allan i Sir Benfro, dewch o hyd i'ch Canolfan Wirfoddoli agosaf yma.
- Mae gan Hwb Gwybodaeth Cefnogi Trydydd Sector Cymru adnoddau rhad ac am ddim, sydd wedi'u cynllunio i'ch helpu i gael yr wybodaeth ddiweddaraf, gwella'ch gwybodaeth a chysylltu ag eraill
- Mae Cymorth Gwirfoddoli Gorllewin Morgannwg yn helpu mudiadau sydd â diddordeb mewn cynnwys gwirfoddolwyr trwy ystod eang o adnoddau a gwasanaethau cymorth

Cydnabyddiaethau

Mae'r prosiect hwn, a gomisiynwyd gan PAVS (Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro), wedi'i ariannu gan Lywodraeth y DU, drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

Funded by
UK Government
Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

Paratowyd y Canllaw (a'r Daflen Wybodaeth fyrrach) gan Gethyn Williams, ymgynghorydd annibynnol yn y DU sy'n arbenigo mewn strategaethau gwirfoddoli, ddiwedd 2024 a dechrau 2025.

+GETHYNWILLIAMS
VOLUNTEERING STRATEGY

gethynwilliams.net